



Dyddiad targed y lansiad: 7 Gorffennaf 2020

BRIFF YR YMGRCH

Mae pandemig COVID-19 wedi taro cymunedau ledled Cymru yn galed ac, o ganlyniad, mae chwaraeon yn y gymuned wedi dod i stop. Wrth i rai chwaraeon fel golff, hwylio a physgota ddychwelyd, rhaid i'r sector baratoi ar fyrder ar gyfer ailddechrau ac addasu'r byd chwaraeon i fodoli ochr yn ochr â COVID-19.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ailddyrannu cyllidebau er mwyn creu cronfa i helpu i gefnogi clybiau a sefydliadau nid-er-elw i **ddiogelu** darpariaeth eu camp yn ystod y pandemig, a **pharatoi** ar gyfer ailagor. Mae paratoi clwb neu brosiect chwaraeon ar gyfer ailddechrau'n golygu addasu'r ddarpariaeth i gynnal a denu diddordeb yn y clwb yn ystod y pandemig ac ar ei ôl.

Enw'r gronfa grantiau newydd fydd Cronfa Cymru Actif a bydd yn allweddol er mwyn cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad i oroesi'r cyfyngiadau symud a ffynnu y tu hwnt i'r pandemig.

Esiamplau o gyflwyniadau tebygol:

- **"Diogelu"** – Esiamplau tebyg i'r rhai sydd wedi'u cefnogi drwy'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng, e.e. cost seibiant cyfleuster, yswiriant, trwydded Zoom i gynnal hyfforddiant ar-lein.
- **"Paratoi"** – Cefnogaeth ariannol i alluogi i weithgaredd gael ei gynnal gyda chymhareb uchel o hyfforddwr/gwirfoddolwr i gyfranogwyr, gan gynnwys costau cynyddol o ganlyniad i fod angen defnyddio gofod mwy ar gyfer cynnal y gweithgaredd yn ddiogel.

CYNULLEIDFA DARGED

Mae ymchwil yn awgrymu bod pandemig COVID-19 yn creu ac yn cadarnhau anghydraddoldeb, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Felly, bydd ymgyrch bresennol #CymruActif yn troi ei ffocws at godi ymwybyddiaeth o Gronfa Cymru Actif ac at dargedu clybiau a sefydliadau presennol mewn ardaloedd o amddifadedd yn benodol.

AMCANION YR YMGRCH

1. **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gronfa ymhlith clybiau a sefydliadau chwaraeon yng Nghymru** – drwy dargedu ein cyfathrebu ymhlith y clybiau a'r prosiectau rydym yn gweithio â hwy sydd â'r angen mwyaf am gyllid.
2. **Sicrhau bod y gynulleidfa darged yn derbyn gwybodaeth glir a chyson am bwrpas y Gronfa** – drwy gadw at negeseuon allweddol yn ein cyfathrebu.

3. **Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau yn atal gwneud cais** - drwy ddefnyddio iaith glir a dealladwy y gall y gynulleidfa darged uniaethu â hi.

4. **Hybu'r Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru fel cefnogwyr Cronfa Cymru Actif** – drwy ddiolch iddynt yn ein cyfathrebu ac annog ein clybiau i ddefnyddio'r pecyn adnoddau digidol er mwyn gwneud yr un peth.

NEGSEUON ALLWEDDOL

Negeseuon allweddol gwreiddiol ymgyrch #CymruActif yw craidd ein cyfathrebu o hyd drwy gydol y pandemig: *Rydym yn eich annog i fod yn actif yn ystod y cyfyngiadau symud er mwyn mwynhau manteision hynny – a gwneud hynny'n ddiogel ac yn gyfrifol.*

Dylid defnyddio'r negeseuon allweddol isod wrth gyfeirio at Gronfa Cymru Actif.

- **Diogelu** – Nid yw pob ffurf ar weithgarwch yn ddiogel i ailddechrau eto. Tan hynny, gall y Gronfa eich helpu chi drwy'r pandemig os yw eich gweithgaredd yn wynebu risg ariannol.
- **Paratoi** – Bydd rhai ffurfiau ar weithgarwch yn cael dychwelyd tra bydd eraill yn gallu cynllunio i ailddechrau yn y dyfodol. Gall y Gronfa hon eich helpu chi i baratoi ar gyfer mwynhau eich gweithgaredd yn ddiogel unwaith eto.
- **Diolch** – Diolch i'r Loteri Genedlaethol, gallwn helpu i gael cymunedau ledled Cymru yn actif nawr ac yn y dyfodol.

LLINELLAU AMSER

7 GORFFENNAF – Bydd Cronfa Cymru Actif yn agor ar **7 Gorffennaf**, ar ôl i'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng gau.

Bydd Chwaraeon Cymru yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar **7 Gorffennaf** cyn y lansiad. Fodd bynnag, bydd partneriaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiad y lansiad cyn 6 Gorffennaf. Bydd y Swyddog priodol yn derbyn copi o'r datganiad i'r wasg cenedlaethol cyn 6 Gorffennaf er mwyn helpu i ddylanwadu ar eu cyfathrebu hwy.

Nid oes gan Gronfa Cymru Actif ddyddiad dod i ben gan fod yr heriau mae chwaraeon ar lawr gwlad yn eu hwynebu'n debygol o fod yn rhai tymor hir, a bydd yn hyblyg yn unol â chanllawiau ymarfer ac iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

CEFNOGI'R YMGYRCH

Mae disgwyl i'r clybiau a'r prosiectau chwaraeon sydd eisoes yn rhan o rwydwaith agos y awdurdod leol ddod i wybod am Gronfa Cymru Actif yn eithaf cyflym. Y rheswm am hyn yw am eu bod yn debygol o fod â pherthynas eisoes gyda awdurdod leol, corff rheoli cenedlaethol neu Chwaraeon Cymru o ganlyniad i geisiadau grant blaenorol neu fod â'u 'bys ar y pwls' a chynllun clwb cadarn yn ei le. Er bod rhaid i ni godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa gyda'r rhwydwaith hwn, **rhaid i ni weithio'n gaketach i gyrraedd a gweithio gyda'r clybiau sy'n llai tebygol o ddod i wybod am y Gronfa** drwy ddull cyfathrebu traddodiadol.

I wneud hyn, bydd angen i chi weithio gyda'ch cydweithwyr i ddod i wybod am y sefydliadau chwaraeon mewn ardaloedd o amddifadedd. Dechreuwch drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- Ydyn ni'n gwybod pa glybiau sydd â'r angen ariannol mwyaf?
- Ble maen nhw wedi'u lleoli?
- Ydyn ni'n gweithio gyda nhw ar hyn o bryd? Os felly, sut gallwn ni wneud hyn yn well fyth?
- Os nad ydyn ni, pa adnoddau neu sianelau allwn ni eu defnyddio i weithio gyda nhw?
- Pwy all ein helpu ni i weithio gyda'r gynulleidfa darged hon (yn fewnol ac yn allanol)?

Defnyddiwch yr atebion i'r cwestiynau hyn i **helpu i ddylanwadu ar gynllun cyfathrebu syml** gan feddwl am yr amcanion uchod.

STRAEON NEWYDDION DA

Er nad yw Cronfa Cymru Actif yn debygol o helpu *pawb*, bydd rhai straeon newyddion da'n dechrau dod i'r amlwg am glybiau chwaraeon llwyddiannus sy'n defnyddio eu gweithgarwch corfforol i gyrraedd a chefnogi'r bobl sydd wedi'u taro galetaf gan y pandemig.

Mae hwn yn gyfle i hybu'r straeon hyn yn eang er mwyn dangos pa mor bwysig yw chwaraeon (a'ch camp chi yn benodol efallai) iddyn nhw ac i'w cymuned.

DEUNYDDIAU HYRWYDDO

Mae casgliad o asedau wedi cael ei greu i'ch helpu chi i hybu Cronfa Cymru Actif, gan gynnwys y canlynol:

- Logo
- Graffeg cyfryngau cymdeithasol
- Troednodyn e-bost
- Baner e-bost
- Llundiau o 'chwaraeon yn cadw pellter cymdeithasol'
- Fideo hyrwyddo

Bydd y rhain ar gael yn fuan [yma](#).

Os ydych chi'n teimlo bod asedau ar goll a'r rheiny'n asedau fyddai'n eich galluogi chi i gyrraedd a gweithio gyda'r gynulleidfa darged yn fwy effeithiol, cofiwch gysylltu ar communications@sport.wales

NEGSEUON AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Ar ddiwrnod y lansiad, dyma rai negeseuon ar gyfer cyfryngau cymdeithasol y gallech eu defnyddio i ddechrau hybu Cronfa Cymru Actif.

English	Welsh
The #BeActiveWales Fund is now open! 🙌	Mae Cronfa #CymruActif ar agor! 🙌
Apply for @SportWales funding to protect your club and prepare to re-start activities safely.	Gwnewch gais am grant gan @SportWales er mwyn diogelu eich clwb a pharatoi ar gyfer ailddechrau eich gweithgaredd yn ddiogel.

<p>A BIG thanks to the Welsh Government and #NationalLottery players for supporting Welsh sport.</p> <p>*Link to be added*</p>	<p>Diolch ENFAWR i Lywodraeth Cymru a chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol am gefnogi chwaraeon yng Nghymru.</p> <p>*Link to be added*</p>
<p>Do you need funding to protect your sports club?</p> <p>And what will you need to re-start activities safely? 😊</p> <p>Apply for @SportWales' #BeActiveWales Fund, provided thanks to players of the #NationalLottery and the Welsh Government.</p> <p>*Link to be added*</p>	<p>Ydych chi angen arian i ddiogelu eich clwb chwaraeon?</p> <p>A beth fydd arnoch ei angen i allu ailddechrau'n ddiogel? 😊</p> <p>Gwnewch gais i Gronfa #CymruActif @SportWales – diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.</p> <p>*Link to be added*</p>
<p>Protect your sports club and prepare for the future! 🗑️</p> <p>Thanks to #NationalLottery players, the @SportWales #BeActiveWales fund is now open.</p> <p>Apply now 📩 *Link to be added*</p>	<p>Cyfle i ddiogelu eich clwb chwaraeon a pharatoi ar gyfer y dyfodol! 🗑️</p> <p>Diolch i chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol, mae Cronfa #CymruActif ar agor nawr!</p> <p>Gwnewch gais 📩 *Link to be added*</p>

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Am beth allaf i wneud cais?

Mae dau brif bwrpas i Gronfa Cymru Actif:

1. **Diogelu:** Darparu cefnogaeth ariannol i sefydliadau sy'n wynebu risg ariannol frys neu sydd mewn perygl yn ariannol. Gall clybiau wneud cais am hyd at £5,000 (isafswm o £300) i helpu gyda gwariant refeniw ar y canlynol:

Rhent

Costau cyfleustodau

Yswiriant

Llogi cyfleusterau neu offer (os oes cost sefydlog)

2. **Paratoi:** Darparu cefnogaeth ariannol i helpu i baratoi sefydliadau ar gyfer ailddechrau eu gweithgarwch neu gynyddu cyfranogiad.

*Mae'n bwysig pwysleisio bod rhaid i geisiadau 'paratoi' gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol ar gyfer 'dychwelyd at chwaraeon'. Cysylltwch â Chorff Rheoli Cenedlaethol eich camp am fwy o wybodaeth am sut fydd eich camp yn ailddechrau.

Am faint o swm allaf i wneud cais?

Bydd Cronfa Cymru Actif yn darparu grantiau o isafswm o £300 (yr uchafswm i'w gadarnhau). Gall clybiau wneud cais am hyd at £5,000 (isafswm o £300) i helpu'n benodol gyda diogelu eu gweithgaredd.

Pwy all wneud cais?

Mae Cronfa Cymru Actif ar agor i sefydliadau sy'n darparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol. Y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw diogelu neu baratoi sefydliadau yn dilyn cyfyngiadau symud y Coronafeirws.

Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Clybiau a phrosiectau chwaraeon lleol nid-er-elw.
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol sy'n darparu neu'n galluogi chwaraeon a/neu weithgarwch corfforol, gan gynnwys sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau chwaraeon yn unig neu yn bennaf ac sydd â rôl bwysig i'w chwarae mewn cadw pobl yn actif, ac sydd angen cefnogaeth efallai er mwyn i rannau eraill eu sefydliad barhau ar agor.
- Ymddiriedolaethau elusennol bychain sy'n darparu chwaraeon neu weithgarwch corfforol.
- Cyrff rhanbarthol sy'n darparu chwaraeon neu weithgarwch corfforol.

Sut gallaf i wneud cais?

Gwneir ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio'r dolenni ar wefan Chwaraeon Cymru:
www.sport.wales/beactivewalesfund

Pryf gallaf i wneud cais?

Mae Cronfa Cymru Actif ar agor o'r 7^{fed} o Orffennaf ymlaen. Gallwch wneud cais ar unrhyw adeg o'r dyddiad hwn.

Sut gallaf i wneud cais os nad oes gen i fynediad at y rhyngwyd?

Gwneir ceisiadau ar-lein i sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r dogfennau angenrheidiol yn cael eu cynnwys er mwyn prosesu'r ceisiadau am grantiau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai pobl yn ei chael yn anodd gwneud cais ar-lein. Er nad yw staff Chwaraeon Cymru yn cael cyflwyno cais ar eich rhan, mae rhai opsiynau ar gael i chi.

Gallwch gysylltu â'ch Corff Rheoli Cenedlaethol (os ydych chi'n aelod o gorff o'r fath) a bydd yn gallu eich cefnogi. Fel dewis arall, bydd gan eich Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol ac Awdurdod Lleol / Cyngor staff datblygu chwaraeon a all eich helpu efallai.

Mae gan rai sefydliadau chwaraeon eraill, fel Street Games neu SportEd, brofiad o gefnogi prosiectau cymunedol.

Ble mae cael mwy o wybodaeth am y gronfa?

www.chwaraeon.cymru/cronfacymruactif
www.sport.wales/beactivewalesfund

Cwestiynau cyffredinol eraill am Gronfa Cymru Actif:

O ble mae'r arian hwn yn dod?

Cefnogir Cronfa Cymru Actif gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn darparu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i Chwaraeon Cymru i'w ddsbarthu i chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru.

O ystyried y sefyllfa mae clybiau'n ei hwynebu ledled y wlad, rydym yn canolbwyntio ein harian grant ar ddiogelu clybiau a'u paratoi ar gyfer ailddechrau.

Ydw i'n gallu gwneud cais o hyd i'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng?

Pan fydd Cronfa Cymru Actif yn agor, na, ni fydd hynny'n bosib.

Ond gallwch wneud cais o hyd am gefnogaeth argyfwng drwy Gronfa Cymru Actif.

Sefydlwyd y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng fel mesur dros dro, gyda help ariannol gan Lywodraeth Cymru. Cronfa Cymru Actif yw'r unig grant sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Chwaraeon Cymru.

Ydw i'n gallu gwneud cais o hyd i'r Gist Gymunedol neu am Grant Datblygu?

Nac ydych.

Cronfa Cymru Actif yw'r unig grant sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Chwaraeon Cymru.

Oes unrhyw grantiau eraill ar gael i gefnogi clybiau chwaraeon ar wahân i Gronfa Cymru Actif?

Oes.

Mae rhai Awdurdodau Lleol yn dosbarthu cyllid. Hefyd mae rhestr gynhwysfawr o grantiau, cymorth a benthyciadau eraill ar gael yn [Atebion Clwb](#).